Hawdd ei Ddeall

# Uchel Siryf Gwent
# Cronfa Gymunedol

## Cyllid ar gyfer sefydliadau cymunedol a gwirfoddol




Mae’r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Sefydliad Cymunedol Cymru**. Mae’n fersiwn hawdd ei ddeall o ‘**Gronfa Gymunedol Uchel Siryf Gwent**’.

**2024**

# Am y llyfryn yma

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond mae'n bosib bydd angen cymorth arnoch chi i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod eich helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Sefydliad Cymunedol Cymru**. Am fwy o wybodaeth neu gefnogaeth cysylltwch â:




**Gwefan:** communityfoundationwales.org.uk/cy/



**Ebost:** grants@communityfoundationwales.org.uk



**Ffôn:** 02920 379580

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud wrthym ni beth yw eich barn am y fersiwn hawdd ei ddeall hon, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys


Cyflwyniad .......... 4

Nodau'r gronfa .......... 5

Pwy sydd yn gallu gwneud cais .......... 6

Y mathau o brosiectau sy'n cael arian .......... 7

Faint rydych chi'n gallu gwneud cais amdano .......... 9

Sut rydyn ni'n penderfynu pwy sy'n cael arian .......... 10

Sut i wneud cais .......... 12

Cyllid am fwy na blwyddyn .......... 14

Cyllid craidd .......... 15

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 .......... 16

Geiriau anodd .......... 19

# Cyflwyniad

Mae’r ddogfen yma am **Gronfa Gymunedol Uchel Siryf Gwent**.

Mae’n dweud:



- Beth ydy nod y gronfa.



- Pwy sy’n gallu gwneud cais.



- Faint rydych chi’n gallu gwneud cais amdano.




- Sut i wneud cais.

# Nodau’r gronfa



Bwriad y gronfa yma ydy gwneud bywyd yn fwy diogel ac yn well i bobl yng Ngwent.



Mae’n rhoi arian i brosiectau lleol sy’n gweithio gyda phobl ifanc. Helpu i stopio trosedd ac ymddygiad gwael.

# Pwy sydd yn gallu gwneud cais


Rydych chi'n gallu gwneud cais os:



- Rydych chi'n helpu plant a phobl ifanc hyd at 25 oed.



- Rydych chi'n grŵp cymunedol, yn sefydliad gwirfoddol, neu'n elusen yng Ngwent. Mae hyn yn cynnwys Casnewydd, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy a Chaerffili.



Rydych chi'n gallu gwneud cais o hyd os ydy eich prosiect wedi derbyn arian o'r blaen. Mae'n rhaid i chi ddangos sut y bydd mwy o arian yn gwneud eich prosiect yn well.



Rydyn ni yn fwyaf tebygol o roi arian i grwpiau llai, lleol lle mae gwirfoddolwyr yn chwarae rhan bwysig.

# Y mathau o brosiectau sy'n cael arian




I gael yr arian, mae angen i'ch prosiect wneud 1 neu fwy o'r pethau yma:



- Helpu pobl ifanc gyda'r problemau maen nhw'n eu hwynebu heddiw. Gan gynnwys eu dysgu sut i gadw'n ddiogel ar-lein.



- Helpu pobl ifanc i ddysgu am droseddau a'i effeithiau. Mae hyn yn cynnwys difrodi eiddo, defnyddio alcohol a chyffuriau, a bwlio ar-lein.



- Helpu pobl ifanc sy'n ymwneud â throseddu, p'un a ydyn nhw yn ddioddefwyr neu'n gwneud y drosedd.



- Canolbwyntio ar stopio achosion troseddu a pham mae pobl ifanc yn torri'r gyfraith.



- Cynnwys pobl ifanc mewn gweithgareddau cadarnhaol. Mae hynny'n rhoi cefnogaeth gymdeithasol ac enghreifftiau da iddyn nhw ddilyn.



- Helpu pobl sy'n cael eu anafu gan droseddau, fel:
  - Pobl sy'n cael eu cam-drin gartref.



  - Pobl sy'n cael eu gorfodi i weithio heb gael eu talu.



  - Pobl **fregus** sydd angen cymorth ychwanegol.

Mae pobl **fregus** yn meddwl pobl sydd efallai angen help a chefnogaeth i gadw'n ddiogel ac yn iach.

# Faint rydych chi'n gallu gwneud cais amdano



Rydych chi'n gallu gofyn am **hyd at £5 mil o bunnoedd** ar gyfer eich prosiect. Fe fydd yr arian yma yn cael ei wario rhwng **2025 a 2026**.

Rydych chi'n gallu defnyddio'r arian ar gyfer pethau fel:




- Rhoi cynnig ar brosiect newydd.



- Talu costau rhedeg.



- Prynu offer a deunyddiau.

# Sut rydyn ni'n penderfynu pwy sy'n cael arian




Fe fyddwn ni'n penderfynu ar y grant yma drwy wneud **grantiau cyfranogol**.



Mae gwneud **grantiau cyfranogol** yn meddwl bod pobl leol yn penderfynu pa brosiectau sy'n cael yr arian. Maen nhw yn dewis y prosiectau fydd yn helpu'r gymuned orau.



Fe fyddwn ni'n edrych ar yr holl geisiadau ac yn gwneud rhestr o'r prosiectau gorau.




Os ydy eich prosiect yn gwneud y rhestr, fe fyddwn ni'n eich gwahodd i'n digwyddiad o'r enw **Eich Llais, Eich Dewis Uchel Siryf Gwent 2025**.




Fe fydd y digwyddiad yma ar d**dydd Sadwrn 8 Mawrth 2025**.



**Fe fydd yn:**

Ysgubor Degwm
Priordy Santes Fair
Stryd Monk
Y Fenni
NP7 5ND.



Mae’n rhaid i rywun o’ch grŵp fynd i’r digwyddiad.

# Sut i wneud cais



Mae’n rhaid i chi lenwi ffurflen gais ar-lein. Mae hon ar gael ar ein gwefan: www.communityfoundationwales.org.uk/cy/grantiau/cronfa-gymunedol-uchel-siryf-gwent/

**Pethau pwysig i’w gwybod:**




- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gallu mynd i’r digwyddiad ar **ddydd Sadwrn 8 Mawrth 2025**.



- Os ydych ch yn cael yr arian grant, rhaid i’r Uchel Siryf ymweld â’ch prosiect yn 2025 neu 2026.



- Dydych chi ddim yn gallu cael arian am bethau rydych chi wedi talu amdanyn nhw cyn derbyn y grant.



- Dydych chi ddim yn gallu defnyddio’r gronfa yma i gefnogi grwpiau ac elusennau eraill.




- Mae’n rhaid i chi wario’r holl arian o fewn 1 flwyddyn i’w gael.




- Rhaid i’ch cais ddangos:
  - Pam mae eich grŵp angen yr arian.
  - Os nad oes gan eich grŵp ddigon o arian.
  - Os oes angen cymorth ychwanegol ar eich grŵp.

# Cyllid am fwy na blwyddyn




Ar gyfer cyllid am fwy nag 1 blwyddyn, fe fydd Uchel Siryff Gwent yn gwneud penderfyniad yn y digwyddiad ar **ddydd Sadwrn 8 Mawrth 2025**.



Fe fyddan nhw yn rhoi cyllid am sawl blwyddyn i 1 corff.

# Cyllid craidd



Mae cyllid craidd yn talu costau rhedeg eich sefydliad. Rydych chi'n gallu ei wario ar bethau fel cyflogau staff a biliau.



Mae'n gallu bod yn anodd dod o hyd i gyllid craidd.

Mae grwpiau nawr yn gallu gwneud cais am gyllid tuag at eu costau craidd am hyd at dair blynedd. Cyn belled â:




- Rydych chi'n gallu darparu eich cyfrifon am y 12 mis diwethaf.



- Mae'r swm rydych chi yn gwneud cais amdano yn llai na hanner eich incwm blynyddol. Er enghraifft, os ydych chi am wneud cais am 1,000 o bunnoedd y flwyddyn, rhaid i'ch incwm fod o leiaf 2,000 o bunnoedd y flwyddyn.

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015




Mae hon yn deddf am wella bywyd yng Nghymru i bobl nawr, ac yn y dyfodol.

Er mwyn cyflawni amcanion y ddeddf yma, mae'n rhaid i ni:



- Meddwl am sut mae ein penderfyniadau yn gallu effeithio ar bobl yn y dyfodol.



- Gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a sefydliadau eraill.



- Gweithio gyda'n gilydd i stopio problemau fel **tlodi**, **anghydraddoldeb iechyd** a **newid yn yr hinsawdd**.



**Tlodi** ydy pan nad oes gan rywun ddigon o arian i fyw arno.



Mae **anghydraddoldeb iechyd** yn meddwl nad ydy pobl bob amser yn cael cyfle cyfartal i gael iechyd da. Er enghraifft, efallai oherwydd lle maen nhw'n byw.



Mae **newid yn yr hinsawdd** yn meddwl bod y blaned yn mynd yn boethach. Mae hyn oherwydd pethau fel y tanwydd rydyn ni'n ei ddefnyddio sy'n niweidio'r blaned.



Rydyn ni eisiau i sefydliadau gydweithio'n well.



Rydyn ni eisiau i sefydliadau feddwl am sut mae eu gwaith yn cyd-fynd â gwaith arall sy'n digwydd.



Yn eich cais, meddyliwch am y pethau yma.



Esboniwch eich cynlluniau ar hyn o bryd a'r dyfodol. Rydyn ni eisiau gweld sut rydych chi'n bwriadu gweithio gydag eraill.

# Geiriau anodd

### Anghydraddoldeb iechyd

Mae anghydraddoldeb iechyd yn meddwl nad ydy pobl bob amser yn cael cyfle cyfartal i gael iechyd da. Er enghraifft, efallai oherwydd lle maen nhw'n byw.

### Bregus

Mae pobl fregus yn meddwl pobl sydd efallai angen help a chefnogaeth i gadw'n ddiogel ac yn iach.

### Grantiau cyfranogol

Mae gwneud grantiau cyfranogol yn meddwl bod pobl leol yn penderfynu pa brosiectau sy'n cael yr arian. Maen nhw yn dewis y prosiectau fydd yn helpu'r gymuned orau.

### Newid yn yr hinsawdd

Mae newid yn yr hinsawdd yn meddwl bod y blaned yn mynd yn boethach. Mae hyn oherwydd pethau fel y tanwydd rydyn ni'n ei ddefnyddio sy'n niweidio'r blaned.

### Tlodi

Tlodi ydy pan nad oes gan rywun ddigon o arian i fyw arno.